



# DARPARIAETH ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL CYFRWNG CYMRAEG NEWYDD ADRODDIAD YMGYNGHORI

Ebrill 2026



## Cynnwys

1. Cefndir.....	2
2. Methodoleg .....	3
3. Sylwadau ac ymatebion .....	3
4. Sylwadau Estyn .....	9
5. Dogfen / holiadur plant a phobl ifanc .....	13
Atodiad 1 - Rhestr ddsbarthu ar gyfer y ddogfen ymgynghori .....	21
Atodiad 2 – Llythyr ymgynghori.....	23

## 1. Cefndir

Yn dilyn adolygiad o'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, mae'r Cyngor yn cynnig agor Canolfan Adnoddau Dysgu (CAD) yn Ysgol Gymraeg Gwynllyw. Mae hyn er mwyn sicrhau y gallwn gyflawni ein cyfrifoldebau o dan y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ac i osgoi disgyblion sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer lleoliad arbenigol rhag gorfod gadael lleoliadau Cyfrwng Cymraeg am leoliadau Cyfrwng Saesneg.

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (CBST) ddyletswydd statudol i sicrhau digon o leoedd ysgol addas i blant a phobl ifanc (PaPhI) yn ei sir, a thrwy wneud hynny sicrhau bod adnoddau a chyfleusterau'n cael eu defnyddio'n effeithlon i ddarparu'r cyfleoedd addysg i bob PaPhI.

Cydnabyddir bod gan lawer o blant a phobl ifanc ystod o anghenion, a disgwylir i bob ysgol, gan gynnwys ysgolion arbennig, wneud addasiadau rhesymol i ddiwallu ystod lawn o anghenion PaPhI er mwyn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r ddyletswydd yn rhagddyfalus yn yr ystyr ei bod yn ei gwneud yn ofynnol ystyried, a gweithredu mewn perthynas â, rhwystrau sy'n llesteirio pobl ag anabledau rhag ceisio defnyddio gwasanaethau a chymryd rhan mewn profiadau cyn iddynt eu cyrchu.

Yn unol â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (ALNET) a'r Cwricwlwm i Gymru, mae Awdurdod Lleol Torfaen yn disgwyl y bydd anghenion dysgu ychwanegol y rhan fwyaf o blant yn cael eu diwallu yn eu hysgol leol. Felly, disgwylir i addasiadau rhesymol ddiwallu'r ystod lawn o anghenion. I'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc, bydd eu hanghenion yn cael eu diwallu trwy ddarpariaeth gyffredinol neu dargedig a fydd yn eu galluogi i wneud y cynnydd disgwylidiedig. Efallai bod gan leiafrif bach iawn o blant a phobl ifanc anghenion dysgu ychwanegol sy'n gofyn am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y tu hwnt i'r hyn y gall ysgol brif ffrwd ei ddarparu. Gellir gosod y disgyblion hyn yn briodol mewn Canolfan Adnoddau Dysgu (CAD) sydd ynghlwm wrth ysgol brif ffrwd neu Ysgol Arbennig yr Awdurdod Lleol (ALI), sef Ysgol Arbennig Crownbridge, yn dibynnu ar anghenion dysgu ychwanegol yr unigolyn.

Bydd y ganolfan newydd arfaethedig yn darparu ar gyfer hyd at 10 o ddisgyblion 4-16 oed i ddechrau (Derbyn i Flwyddyn 11). Byddai'r Ganolfan Adnoddau Dysgu yn darparu ar gyfer dysgwyr cynradd yn y flwyddyn gyntaf o weithredu gydag adolygiad o'r angen ar gyfer y blynyddoedd dilynol.

Yn dilyn adolygiad o le gyda'r pennaeth, mae'r Cyngor yn bwriadu defnyddio amgylcheddau dysgu presennol i greu manau dosbarth a chyfleusterau cysylltiedig i ddarparu ar gyfer y Ganolfan Adnoddau Dysgu arfaethedig a darparu adnoddau priodol ar ei chyfer. Yn ogystal, ac ochr yn ochr â hyn, bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r ysgol i ddatblygu cynllun hirdymor i gefnogi twf a datblygiad cynaliadwy'r ganolfan.

Bydd y Cyngor yn cefnogi'r ysgol a'r corff llywodraethu a fydd yn gyfrifol am benodi staff.

Cyn yr agoriad ar 1 Medi 2026, bydd y corff llywodraethu yn gwneud penderfyniadau allweddol sy'n ofynnol ynghylch y strwythur staffio, disgwyliadau gwisg ysgol, polisïau ac ati, oherwydd creu'r Ganolfan Adnoddau Dysgu.

## **2. Methodoleg**

Cynhaliwyd ymgynghoriadau ar y cynigion hyn gyda'r ymgynghoreion penodedig sydd wedi'u cynnwys yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Mae rhestr o'r ymgynghoreion hynny wedi'i hatodi yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad o 26 Ionawr i 12 Mawrth 2026 gan ddefnyddio dogfen ymgynghori a ffurflen ymateb gysylltiedig. Amlinellodd y ddogfen y newidiadau a oedd yn cael eu hystyried, y rhesymeg drostynt, manylion y broses ymgynghori ac ymgorfforodd y ffurflen ymateb.

Gwnaed y ddogfen ymgynghori ar gael i'w dosbarthu i ddisgyblion a'u rhieni/gofalwyr trwy sianeli cyfathrebu arferol ysgolion.

Cyhoeddwyd dogfen/holiadur ar wahân sy'n addas i'r oedran ar gyfer Plant a Phobl Ifanc gyda'r cyfle i gyflwyno eu barn a'u sylwadau.

Cynhaliwyd digwyddiad ymgynghori galw heibio mewn perthynas â'r cynigion hyn yn Ysgol Gymraeg Gwynllyw ar 3 Chwefror 2026. Roedd croeso i bob ymgynghorai fynychu.

Hyrwyddwyd y ddogfen ymgynghori, y ffurflen adborth, yr holiadur disgyblion a'r digwyddiad galw heibio ar-lein hefyd trwy wefan y cyngor, 'Cymryd Rhan Torfaen' a sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Roedd swyddogion o'r Cyngor yn bresennol yn y sesiynau hyn i ateb cwestiynau a sicrhau bod sylwadau/barn a wnaed yn cael eu cofnodi er mwyn caniatáu i Aelodau Etholedig wneud penderfyniad gwybodus ar yr amser priodol.

## **3. Sylwadau ac ymatebion**

Roedd swyddogion canlynol y Cyngor yn y digwyddiad ymgynghori i ddelio ag unrhyw ymholiadau:

- Pennaeth ADY, Cynhwysiant a Llesiant
- Ymgynghorydd Llesiant ADY a Chynhwysiant
- Prif Swyddog Blaengynllunio
- Pennaeth Mynediad ac Ymgysylltu

Mynychodd pum aelod o staff Ysgol Gymraeg Gwynllyw y digwyddiad galw heibio ar gyfer yr ymgynghoriad a gwnaethant sylwadau a gofyn cwestiynau.

Derbyniodd y cyngor nifer o ymatebion ysgrifenedig pellach i'r ymarfer ymgynghori gan bartïon eraill. Mae'r holl sylwadau a dderbyniwyd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

Dyma restr o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad neu a fynychodd y digwyddiad galw heibio:

- 1 aelod ward
- 2 Lywodraethwr
- 4 Pennaeth
- Estyn
- 269 o ddisgyblion
- 5 aelod o staff ysgol

Mae ffeil o'r holl sylwadau a'r barnau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ar gael i Aelodau Etholedig fel rhan o'r broses hon, cyn i unrhyw penderfyniadau gael eu gwneud.

Roedd y mwyafrif yn cefnogi'r cynnig, ond codwyd rhai cwestiynau sydd, ynghyd ag ymatebion y Cyngor, wedi'u grwpio yn ôl themâu a'u crynhoi isod.

<u>Sylw/Cwestiwn</u>	<u>Ymateb</u>
<p><u>Cyfrwng Saesneg yn erbyn Cyfrwng Cymraeg</u></p> <p>Rwy'n cytuno bod angen darpariaeth ADY ychwanegol arnom yn Nhorfaen a dylem fod yn cael cyllid i ddarparu ar gyfer hyn. Fodd bynnag, pam nad yw hyn yn gysylltiedig â Chyfrwng Saesneg lle mae'r galw'n uwch?</p> <p>Weithiau mae disgyblion yn cael trafferth mewn lleoliad cyfrwng Cymraeg ac mae eu sgiliau sylfaenol yn wael iawn. Dyma ddisgyblion nad ydynt o reidwydd yn ADY ond sy'n ymddangos fel pe baent yn is na'u cyfoedion mewn sgiliau sylfaenol. Pe bai ganddynt anghenion ychwanegol hefyd, byddent hyd yn oed ymhellach y tu ôl i'w cyfoedion.</p>	<p>Mae'r ddarpariaeth hon yn cael ei chynnig i sicrhau bod yr ALL yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol o dan y Cod ADY i sicrhau bod digon o ddarpariaeth ar draws Torfaen a bod hyn yn deg.</p>

<p>A yw'r arian hwn wedi'i glustnodi fel mai dim ond ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg y gellir ei wario?</p> <p>Rydym yn cefnogi'r cynnig gan fod disgyblion a'u teuluoedd wedi gorfod gadael addysg cyfrwng Cymraeg ers gormod o amser i gael mynediad at ddarpariaeth ADY arbenigol o fewn CBST.</p> <p>Mae'r egwyddor i greu CAD cyfrwng Cymraeg yn gadarn ac i'w groesawu'n fawr.</p>	<p>Mae cyllid wedi'i nodi o gyllideb Addysg i gyflawni'r ddarpariaeth hon y flwyddyn nesaf.</p> <p>Mae gan deuluoedd hawl i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant, ac ni ddylai cael angen dysgu ychwanegol fod yn rhwystr i hynny.</p>
<p><u>Lleoliad</u></p> <p>Mae lleoli'r ddarpariaeth arfaethedig ar safle ysgol cyfrwng Cymraeg i bob oed yn gynllun strategol hirdymor cadarn, gan ei fod yn caniatáu i ddarpariaeth pob oed gael ei datblygu mewn modd rhagweithiol fesul tipyn.</p>	<p>Nodwyd a chytunwyd.</p>
<p><u>Staffio / Cyllid</u></p> <p>Sut fyddwch chi'n sicrhau y bydd staff cymwys yn cael eu recriwtio a'u hyfforddi a sut y caiff ei ariannu?</p> <p>O ystyried anghenion y disgyblion, un pryder yw na fydd y cyllid o £110,000 y flwyddyn yn ddigon, er enghraifft efallai y bydd gan rai disgyblion anghenion gofal meddygol a allai arwain at fwy o staff neu efallai y bydd angen hyfforddiant arbenigol parhaus.</p>	<p>Bydd yr Awdurdod Lleol yn cefnogi'r ysgol gyda'r broses recriwtio ar gyfer y Ganolfan Adnoddau Dysgu i sicrhau bod gan y staff y cymwysterau a'r profiad addas.</p> <p>Byddai'r Ganolfan Adnoddau Dysgu yn cael ei hariannu yn unol â fformiwla ariannu CAD yr ALI ac yn unol â Chytundeb Partneriaeth yr ALI a'r Ganolfan Adnoddau Dysgu a ddatblygwyd ar y cyd â Grŵp Strategaeth Penaethiaid ADY. Mae cyllid yn cael ei ddirprwyo'n uniongyrchol i'r Ganolfan Adnoddau Dysgu ac mae'n caniatáu hyblygrwydd</p>

<p>O ble fydd y staff yn cael eu penodi? Mae perygl wrth benodi staff newydd, dibrofiad, na fydd ganddynt y sgiliau angenrheidiol i weithio gyda disgyblion sydd ag anghenion dwys.</p> <p>Beth yw'r bwriadau ar gyfer staffio'r ddarpariaeth hon? A fydd staff yn cael eu hadleoli o fewn cronfa staffio bresennol Ysgol Gymraeg Gwynllyw, neu'n cael eu recriwtio'n allanol trwy broses recriwtio bwrpasol?</p> <p>Os bydd recriwtio allanol, neu lle mae angen llenwi staff o brif leoliad Ysgol Gymraeg Gwynllyw, beth yw'r amserlen ar gyfer recriwtio i sicrhau bod y Ganolfan Adnoddau Dysgu a'r ysgolion yr effeithir arnynt wedi'u staffio'n briodol ar gyfer mis Medi 2026?</p>	<p>i'r lleoliad ddefnyddio cyllid dirprwyedig i gyflogi a defnyddio staff i ddiwallu anghenion dysgwyr.</p> <p>Mae'r £110k ar gyfer sefydlu'r Ganolfan Adnoddau Dysgu, sy'n ddigonol ar gyfer y nifer disgwylidig o leoliadau eleni, o fis Medi 2026. Bydd y gyllideb yn cael ei hadolygu a'i monitro'n flynyddol.</p> <p>Bydd yr Awdurdod Lleol yn cefnogi'r ysgol gyda'r broses recriwtio ar gyfer y Ganolfan Adnoddau Dysgu i sicrhau bod gan y staff y cymwysterau a'r profiad priodol.</p> <p>Mae'r ALI yn ymwybodol o'r anawsterau wrth recriwtio staff sydd â'r sgiliau priodol ac sy'n siarad Cymraeg. Nid yw am danseilio'r darpariaethau presennol a bydd yn gweithio gyda'r holl ddarpariaethau Cyfrwng Cymraeg i wneud y defnydd gorau posibl o staff presennol a staff newydd.</p> <p>Bydd proses recriwtio agored yn dilyn polisi recriwtio Torfaen. Ni fyddant yn cael eu neilltuo i staff o un ysgol.</p> <p>Bydd y broses recriwtio yn cychwyn cyn gynted â phosibl yn dibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad gyda'r bwriad o agor ym mis Medi neu cyn gynted â phosibl wedi hynny.</p> <p>Mae gennym drefniadau Allgymorth eisoes i gefnogi ysgolion ymhellach.</p>
---	---

<p>Byddai'n ddefnyddiol yn y dyfodol meithrin trefniant Allgymorth i gefnogi ysgolion ymhellach.</p> <p>A fyddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i wrthbwysu'r effeithiau ariannol ar ysgolion clwstwr sy'n profi disgyblion yn gadael i'r ddarpariaeth hon?</p>	<p>Mae proses atgyfeirio glir ar gyfer pob ysgol. Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw'r cynnig dan adolygiad i sicrhau bod cefnogaeth gyfartal ar gael ar gyfer lleoliadau cyfrwng Saesneg a Chymraeg.</p> <p>Oherwydd maint bach y ganolfan, ni ragwelir effaith sylweddol ar gyllidebau ysgolion eraill.</p>
<p><u>Proses Derbyn</u></p> <p>A fydd proses deg a chyfartal?</p> <p>A yw'r plant unigol a fyddai'n elwa o'r ddarpariaeth hon eisoes wedi'u nodi?</p> <p>Sut mae'r Awdurdod yn diffinio ac yn gwahaniaethu'n glir rhwng anghenion ADY a heriau gyda chaffael y Gymraeg?</p>	<p>Byddai angen anfon ceisiadau am le at Banel Anghenion Dysgu Ychwanegol Awdurdod Lleol Torfaen i ystyried a ellir diwallu anghenion y plentyn yn y lleoliad. Ni fydd unrhyw driniaeth ffafriol yn cael ei rhoi i ddisgyblion sydd eisoes yn Ysgol Gymraeg Gwynllyw. Dim ond disgyblion sydd wedi cael eu derbyn gan y Panel ADY fydd yn gallu cael mynediad at y ddarpariaeth.</p> <p>Mae'r Panel ADY wedi derbyn ceisiadau ar gyfer blwyddyn academaidd 2026-2027 gan ysgolion, ac mae'r rhain wedi cael eu hystyried gan y Panel ADY ac mae lleoedd dros dro wedi'u nodi.</p> <p>Dim ond os yw disgyblion yn bodloni'r meini prawf Mynediad ac Ymadael sy'n gysylltiedig â gwybyddiaeth a dysgu a chyfathrebu (Anhwylderau yn y Sbectwm Awtistig) y gellir cael mynediad at y Ganolfan Adnoddau Dysgu hon. Ni ddyrennir lleoedd i ddisgyblion yn seiliedig ar eu caffaeliad o'r iaith Gymraeg. Ystyrir ystod eang o</p>

<p>A yw'r Awdurdod yn rhagweld risg y gallai teuluoedd ddewis trosglwyddo eu plant i Ysgol Gymraeg Gwynllyw ar y sail y byddant yn derbyn darpariaeth ADY well, hyd yn oed os nad yw eu plentyn yn gymwys ar gyfer y Ganolfan Adnoddau Dysgu?</p>	<p>dystiolaeth fel rhan o'r broses lleoli arbenigol.</p> <p>Bydd y tîm derbyniadau yn egluro i deuluoedd mai dim ond trwy feini prawf mynediad ac ymadael y gellir cael mynediad at y ddarpariaeth hon. Ni all plant prif ffrwd gael mynediad at y ddarpariaeth.</p>
<p><u>Capasiti a lle</u></p> <p>Pa waith sydd wedi'i wneud i benderfynu mai'r angen cychwynnol yw ar gyfer 10 o blant a'r twf yn y dyfodol.</p> <p>Sut le fydd y manau dan do ac awyr agored? Mae gofynion penodol ar gyfer diwallu anghenion y cwricwlwm, gwahanol grwpiau oedran ac anghenion unigol. Yn benodol, mae angen edrych ar y manau awyr agored.</p>	<p>Mae dadansoddiad ehangach o'r galw am ddarpariaeth arbenigol wedi llywio'r penderfyniad ynghylch capasiti.</p> <p>Bydd y ddarpariaeth yn ddarpariaeth 'ar gyfer pob oedran'. Fodd bynnag, mae'n cael ei chreu fel darpariaeth sylfaenol yn y lle cyntaf. Bydd ystafell / ardal ar wahân yn cael ei datblygu i'w defnyddio ar gyfer dysgwyr oedran uwchradd.</p> <p>Bydd ardaloedd dysgu awyr agored a'r angen am fannau dysgu llai ar gyfer grwpiau bach yn cael eu hymgorffori. Er enghraifft, mae ardal ystafell synhwyraidd a gardd wedi'u cynllunio. Bydd angen adolygu gofynion lle yn flynyddol.</p>
<p><u>Trafnidiaeth a safle</u></p> <p>Rhaid asesu a chynllunio'n briodol ar gyfer rheoli traffig er mwyn darparu digon o ddiogelwch wrth i ddisgyblion gael eu cludo i'r safle.</p>	<p>Byddwn yn cefnogi'r ysgol i sicrhau bod traffig y safle yn cael ei reoli'n ddiogel. Mae diogelwch y disgyblion yn flaenoriaeth, er enghraifft, efallai y bydd angen ailystyried lleoliad y gât diogelwch bresennol, meysydd parcio i bobl anabl, a mesurau ychwanegol i ganiatáu i draffig gyrraedd adeilad Gwladys ar adegau penodol o'r diwrnod ysgol.</p>

<p>Pa ystyriaeth a roddwyd i effaith teithio bob dydd estynedig ar les a pharodrwydd i ddysgu plant a allai fod eisoes ag anghenion synhwyrdd, emosiynol neu ymddygiadol cymhleth?</p>	<p>Mae Rhwydwaith CAD a all rannu arfer da o ran sut mae disgyblion yn cael eu cefnogi ar ôl cyrraedd y Ganolfan Adnoddau Dysgu ar ôl cyfnod o gludiant a'u paratoi ar gyfer y daith adref.</p>
<p>Pa drefniadau a wneir ar gyfer darparu hebryngwr, gan gydnabod y gofynion diogelu a'r realiti ymarferol y bydd angen cymorth ychwanegol ar rai disgyblion yn ystod y daith ei hun?</p>	<p>Dim ond lle mae angen clir wedi'i ddangos trwy asesiad ffurfiol a gynhaliwyd ar y cyd gan y Gwasanaeth ADY a'r Uned Cludiant Teithwyr (PTU) y bydd darpariaeth hebryngwr yn cael ei hawdurdodi. Bydd y PTU a'r contractwr/contractwyr a neilltuwyd yn cysylltu â theuluoedd i drafod anghenion a rhoi trefniadau ar waith.</p>

#### 4. Sylwadau Estyn

##### **Cyflwyniad**

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori at Estyn.

Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff sy'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod, ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, dim ond ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion y mae Estyn yn rhoi ei farn.

Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgol y cynnig i sefydlu Canolfan Adnoddau Dysgu (CAD) cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Gymraeg Gwynllyw ac wedi cynhyrchu'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigydd.

##### **Crynodeb / Casgliad**

Ar y cyfan, mae'n ymddangos bod y cynnig yn debygol o wella mynediad at ddarpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn Nhorfaen, yn enwedig drwy leihau'r angen i ddisgyblion drosglwyddo i leoliadau cyfrwng Saesneg er mwyn cael mynediad at gymorth arbenigol.

Fodd bynnag, nid yw'r ddogfen ymgynghori yn nodi'n glir anghenion dysgu ychwanegol penodol y disgyblion a fyddai'n mynychu'r Ganolfan Adnoddau Dysgu (CAD) arfaethedig, sy'n cyfyngu ar y graddau y gall Estyn werthuso effaith addysgol debygol y cynnig yn llawn. Yn ogystal, mae'r cynnig i sefydlu un ganolfan ar gyfer

hyd at 10 disgybl 4–16 oed yn codi ystyriaethau pwysig ynghylch cyflwyno'r cwricwlwm, arbenigedd staffio, diogelu, addasrwydd ffisegol yr adeilad a chydawnsedd anghenion disgyblion.

Byddai mynd i'r afael â'r materion hyn yn fwy penodol yn cryfhau'r hyder bod y cynnig yn debygol o gynnal neu wella'r ddarpariaeth addysgol i bob disgybl a allai fynychu'r Ganolfan Adnoddau Dysgu.

### **Disgrifiad a manteision**

Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu sail resymegol strategol glir a phriodol ar gyfer y cynnig, wedi'i wreiddio yn ei ddyletswyddau statudol o dan y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a'i ymrwymiad i gryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'r bwriad i atal disgyblion rhag gadael addysg cyfrwng Cymraeg er mwyn cael mynediad at ddarpariaeth ADY arbenigol yn fantais sylweddol a chlir.

Mae'r cynnig wedi'i ddisgrifio'n glir o ran gweithdrefn, gan gynnwys trefniadau arweinyddiaeth, amserlenni a chyllid. Mae nodi Ysgol Gymraeg Gwynllyw fel yr ysgol letyol yn ymddangos yn rhesymegol, o ystyried ei statws cyflawn a'i llwybr sy'n gwella.

Fodd bynnag, er bod yr awdurdod yn egluro'r angen am ddarpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg ychwanegol, nid yw'n diffinio'n ddigonol y proffiliau penodol, y cymhlethdod na'r ystod o anghenion dysgu ychwanegol y bwriedir i'r Ganolfan Adnoddau Dysgu arfaethedig eu gwasanaethu. Er enghraifft, nid yw'r ddogfen ymgynghori yn egluro a yw'r ddarpariaeth wedi'i bwriadu'n bennaf ar gyfer disgyblion â chyflwr sbectrw m awtistiaeth, anghenion dysgu cymhleth, anghenion iechyd cymdeithasol, emosiynol a meddyliol, neu gyfuniad o fathau o anghenion.

Mae'r diffyg eglurder hwn yn cyfyngu ar werthuso:

- a fydd y llety arfaethedig yn diwallu anghenion synhwyrdd a chorfforol y disgyblion, gan gynnwys ystyriaethau fel acwsteg, goleuadau, hygyrchedd, mynediad at gyfleusterau arbenigol a darpariaeth awyr agored briodol
- a fydd trefniadau staffio yn cynnwys digon o arbenigedd arbenigol i ddiwallu ystod eang o anghenion posibl
- sut y sicrhewr cydnawsedd rhwng disgyblion ag anghenion gwahanol
- sut y rheolir risgiau diogelu a lles sy'n gysylltiedig ag anghenion cymysg

Mae'r cynnig i ddarparu lle i hyd at 10 disgybl rhwng 4 a 16 oed o fewn un CAD yn codi ystyriaethau pellach. Er bod yr awdurdod yn nodi y byddai'r ganolfan yn darparu ar gyfer disgyblion oedran cynradd i ddechrau, nid yw'r ddogfen ymgynghori yn egluro'n ddigonol y rhesymeg addysgol tymor hwy dros grwpio disgyblion ar draws ystod oedran mor eang. Mae gan hyn oblygiadau i'r canlynol:

- ehangder y cwricwlwm, dilyniant ac addysgeg sy'n addas i'r oedran
- strwythurau staffio a lleoli
- rheoli rhyngweithiadau rhwng disgyblion llawer iau a hŷn

- trefniadau diogelu wrth i'r garfan newid dros amser

Mae'r awdurdod lleol yn nodi'r manteision a'r risgiau mewn ffordd gytbwys ac yn dangos ei fod wedi ystyried opsiynau eraill. Mae'r opsiwn a ffeirir yn ymddangos yn gymesur o ystyried y galw presennol. Fodd bynnag, mae ansicrwydd ynghylch y galw yn y dyfodol yn codi cwestiynau ynghylch a allai capasiti o 10 disgybl, dros amser, arwain at dan-ddefnyddio'r ddarpariaeth neu at bwysau i ehangu'r garfan y tu hwnt i'r hyn sy'n ddelfrydol yn addysgol.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi darparu Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg fel rhan o'r cynnig hwn. Mae'r Awdurdod Lleol wedi darparu Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned fel rhan o'r cynnig hwn.

Mae Estyn yn nodi nad yw'n gwerthuso ansawdd yr asesiadau hyn ond yn cadarnhau eu bod wedi'u cynnwys yn ystod y cyfnod ymgynghori.

### **Agweddau addysgol y cynnig**

Ymddengys bod y cynnig yn rhoi ystyriaeth briodol ar lefel uchel i safonau, lles, addysgu ac arweinyddiaeth. Mae'r bwriad i ddisgyblion yn y Ganolfan Adnoddau Dysgu gael mynediad at y Cwricwlwm i Gymru a pharhau i fod yn rhan o gymuned ehangach yr ysgol yn gadarnhaol.

Yn ein harolygiad o Ysgol Gymraeg Gwynllyw yn 2019, nodwyd bod gan yr ysgol drefniadau addas i nodi a chefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, wedi'u cefnogi gan wybodaeth ddefnyddiol mewn cynlluniau addysg unigol a'r llawlyfr staff. Roedd darpariaeth wedi'i thargedu fel canolfan Hafan a Clwb Cwtsh yn darparu cefnogaeth emosiynol, feddygol a chymdeithasol effeithiol i ddisgyblion agored i niwed. Gweithiodd yr ysgol yn briodol gydag asiantaethau allanol ac ysgolion partner, gan gynnwys i gefnogi'r cyfnod pontio o'r ysgol gynradd i gyfnod allweddol 3. Fodd bynnag, nid oedd systemau i olrhain cynnydd disgyblion yn erbyn targedau unigol yn cael eu gweithredu'n ddigon cyson.

Nid yw ein hadroddiad monitro yn 2023 yn gwerthuso'n benodol y ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol, na'r arweinyddiaeth ohonynt. Mae cyfeiriadau at gefnogaeth, lles neu olrhain cynnydd disgyblion yn ymhlyg ac yn berthnasol i ddysgwyr yn gyffredinol, yn hytrach na darparu tystiolaeth werthusol benodol am ansawdd neu effaith trefniadau ADY.

Yn y cyd-destun hwn, mae'r diffyg eglurder yn y ddogfen ymgynghori ynghylch anghenion penodol disgyblion a fyddai'n mynychu'r Ganolfan Dysgu Ychwanegol yn arwyddocaol.

Mae'r cynnig hefyd yn cyflwyno heriau posibl sy'n gysylltiedig â lletya disgyblion 4–16 oed o fewn un ganolfan arbenigol, gan gynnwys sicrhau dilyniant cwricwlwm priodol, dulliau addysgu sy'n addas i'r oedran a rhyngweithiadau diogel a phwrpasol rhwng disgyblion o wahanol oedrannau. Er bod yr awdurdod yn nodi y bydd yr aflonyddwch i ddysgwyr yn cael ei leihau i'r lleiafswm, mae manylion cyfyngedig

ynghylch sut y bydd y pontio i mewn ac o fewn y ddarpariaeth yn cael ei reoli, yn enwedig ar gyfer disgyblion sy'n dechrau mewn gwahanol gyfnodau neu'n trosglwyddo o ysgolion eraill.

Yn gyffredinol, er bod gan y cynnig botensial clir i wella darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg, nid oes digon o benodoldeb ynghylch y garfan arfaethedig a sut y bydd y ddarpariaeth yn cael ei haddasu i ddiwallu ystod eang o anghenion ac oeddrannau a'i heffaith debygol ar ddeilliannau dysgwyr.

### **Ymateb y Cyngor i sylwadau Estyn**

Mae dysgu wedi'i gymryd gan Awdurdodau Lleol eraill lle mae Canolfannau Dysgu wedi'u creu fel darpariaethau ADY 'cyffredinol'.

Rydym yn cydnabod y bydd disgyblion ag ystod o anghenion gan gynnwys gwybyddiaeth a dysgu a synhwyraidd a chyfathrebu. Mae hyn yn adlewyrchu llawer o'n CAD presennol lle mae'n rhaid i staff addasu eu harfer a'u haddysgeg wrth i ddisgyblion gyflwyno ag ystod eang o anghenion yn ogystal â'u prif angen.

Byddai angen anfon ceisiadau am le at Banel Anghenion Dysgu Ychwanegol Awdurdod Lleol Torfaen i ystyried a ellir diwallu anghenion y plentyn yn y lleoliad gan ddefnyddio meini prawf mynediad ac ymadael CBST. Mae dadansoddiad o'r galw dros y 5 mlynedd diwethaf a rhagolygon o angen yn y dyfodol wedi dangos y bydd lleoliad â chapasiti o 10 lle yn bodloni'r galw a ragwelir yn y 5 mlynedd nesaf.

Bydd y ddarpariaeth yn cefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol cymedrol a phenodol na ellir diwallu eu gofynion yn llawn drwy ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg prif ffrwd, ond nad oes angen lleoliad arnynt mewn ysgol arbenigol. Mae hyn yn cynnwys disgyblion ag anhwylder datblygu iaith, anawsterau dysgu penodol, anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, cyflwr sbectrwm awtistig ysgafn-cymedrol, neu anawsterau gwybyddol ysgafn-cymedrol. Defnyddir prosesau asesu lefel disgyblion sefydledig i fonitro ac arwain cynnydd ar gyfer dysgwyr unigol ac ar gyfer y Ganolfan Adnoddau Dysgu gyfan.

Defnyddir proses bontio well ar gyfer pob disgybl sy'n cael lle mewn darpariaeth arbenigol gan gynnwys ymweliadau i'r disgybl a'i deulu â'r lleoliad a chyfarfodydd â'r holl weithwyr proffesiynol dan sylw i sicrhau trosglwyddo dogfennaeth yn ddidrafferth.

Bydd y ddarpariaeth yn ddarpariaeth 'ar gyfer pob oedran' yn y tymor hir. Fodd bynnag, mae'n cael ei chreu fel darpariaeth gynradd yn y lle cyntaf. Bydd ystafell / ardal ar wahân yn cael ei datblygu i'w defnyddio ar gyfer dysgwyr oedran uwchradd a bydd cynllunio'r cwricwlwm, trefniadau staffio ac arferion diogelu yn cael eu trefnu i sicrhau addysgeg sy'n addas i'r oedran a rhyngweithio diogel ar draws grwpiau oedran.

Gall yr Awdurdod Lleol gefnogi'r ysgol gyda'r broses recriwtio ar gyfer y Ganolfan Adnoddau Dysgu i sicrhau bod gan y staff y cymwysterau a'r profiad addas.

Sylwadau/Cwestiynau a nodwyd yn ystod y digwyddiad galw heibio

Cwestiynau / Sylwadau gan ddisgyblion	Ymateb yr ALL
Pwy fydd yn gweithio yn y Ganolfan Adnoddau Dysgu?	Bydd yr Awdurdod Lleol yn cefnogi'r ysgol gyda'r broses recriwtio ar gyfer y Ganolfan Adnoddau Dysgu er mwyn sicrhau bod gan y staff y cymwysterau a'r profiad addas.
Beth fydd y proffil angen?	Rydym yn cydnabod y bydd disgyblion ag amrywiaeth o anghenion gan gynnwys gwybyddiaeth a dysgu a synhwyraidd a chyfathrebu. Mae hyn yn adlewyrchu llawer o'n CAD presennol lle mae staff wedi gorfod addasu eu harfer a'u haddysgeg wrth i ddisgyblion gyflwyno ag ystod eang o anghenion yn ogystal â'u prif angen.  Cymerwyd dysgu o Awdurdodau Lleol eraill lle mae Canolfannau Dysgu wedi'u creu fel darpariaethau ADY 'cyffredinol'.
Beth fydd yr ystod oedran a ble fyddan nhw'n cael eu haddysgu?	Bydd y ddarpariaeth yn ddarpariaeth 'ar gyfer pob oedran' yn y tymor hir.  Fodd bynnag, mae'n cael ei chreu fel darpariaeth sylfaenol yn y lle cyntaf. Bydd ystafell / ardal ar wahân yn cael ei datblygu i'w defnyddio ar gyfer dysgwyr oedran uwchradd.
Faint o ddisgyblion fydd yna?	Mae 10 lle cynradd yn cael eu creu i ddechrau.

**5. Dogfen / holiadur plant a phobl ifanc**

Cysylltwyd â Phenaethiaid yr ysgolion uwchradd a chynradd Cyfrwng Cymraeg ar ddechrau'r cyfnod ymgynghori (26 Ionawr 2026) i hwyluso ymgynghori â'u disgyblion priodol.

Cafodd y disgyblion eu fersiwn eu hunain o'r ddogfen ymgynghori a oedd yn cynnwys holiadur er mwyn iddynt allu cyflwyno eu barn a'u sylwadau ar y cynnig.

Gofynnodd yr holiadur:

- C1) Sut ydych chi'n teimlo am agor lle arbennig (CAD) ar gyfer plant sy'n dysgu yn y Gymraeg yn unig?  
 C2) Ydych chi'n meddwl bod Ysgol Gymraeg Gwynllyw yn lle da ar gyfer y ganolfan gymorth newydd?  
 C3) A oes unrhyw beth y byddech chi'n ei newid am ein cynllun?  
 C4) Hoffech chi ofyn cwestiwn i ni?

Derbyniwyd ymatebion gan ddisgyblion fel a ganlyn:

### Ysgol Panteg

Cymerodd 50 o ddisgyblion Blwyddyn 6 ran yn yr holiadur a chyflwyno ymatebion. Dyma nhw:

C1) Wyneb Hapus = 48, Wyneb Niwtral = 2, Wyneb Anhapus = 0

C2) Wyneb Hapus = 28, Wyneb Niwtral = 17, Wyneb Anhapus = 3

Cwestiynau / Sylwadau gan ddisgyblion	Ymateb yr ALI
Ar gyfer pa oedrannau mae hyn?	Mae hyn ar gyfer disgyblion oedran cynradd i ddechrau.
Pam mai dim ond un dosbarth sydd? Mae gan rai plant anghenion gwahanol a gall rhai plant fod o oedrannau gwahanol iawn fel cael plentyn yn ei ardegau gyda phlentyn Blwyddyn 3.	Bydd gan ddisgyblion oedran uwchradd ystafell ddosbarth ar wahân. Bydd gan y staff y cymwysterau a'r profiad cywir i gefnogi plant ag ADY.
Pam Gwynllyw? Sut fydd plant o Gwibrân yn cyrraedd yno? Sut fydd plant o Gwibrân yn cyrraedd yno os oes ganddyn nhw anghenion? Dydy XYZ ddim yn hoffi bysiau ac ni all eistedd ar y bws am hanner awr. Dydw i ddim yn meddwl bod hynny'n deg.	Y rheswm pam y dewiswyd Ysgol Gyfun Gwynllyw yw oherwydd bod yr holl ysgolion cynradd Cyfrwng Cymraeg yn bwydo Ysgol Gyfun Gwynllyw ac mae'n ysgol pob oed. Gall teuluoedd disgyblion ag ADY mewn lleoliadau arbenigol wneud cais iddynt gael eu hystyried am gymorth gyda chludiant. Gall disgyblion fod yn gymwys i gael cludiant am ddim o dan bolisi Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol y Cyngor. Gall teuluoedd hefyd fynd â'u plant yno eu hunain.
Sut fyddwch chi'n dewis plant i fynd i'r dosbarth? Mae'n rhaid iddo fod yn deg.	Byddai angen anfon ceisiadau am le at Banel Anghenion Dysgu Ychwanegol Awdurdod Lleol Torfaen i ystyried a ellir diwallu anghenion y plentyn yn y lleoliad.

Beth os yw'n llawn, a fydd yn rhaid iddyn nhw fynd i ysgol Saesneg yn lle hynny i gael yr un cymorth?	Rydym wedi cynllunio digon o leoedd i fodloni'r galw disgwylidig. Bydd hyn yn cael ei adolygu'n flynyddol.
Ai dim ond Cymraeg y byddan nhw'n ei ddysgu neu a fyddan nhw'n dysgu mwy o bethau yno?	Bydd disgyblion yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond byddant yn cael eu haddysgu trwy gwricwlwm amrywiol.
A fydd hyn o gymorth i blant ag anghenion synhwyrdd fel fi?	Bydd hyn ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Gellid cefnogi disgyblion ag anghenion synhwyrdd yn y lleoliad hwn os ydynt yn bodloni'r meini prawf.
Dw i'n meddwl bod Gwynllyw yn brysur iawn. Beth sy'n digwydd pan fydd rhywun angen lle tawel?	Bydd y diwrnod ysgol yr un amseroedd â'r ysgol brif ffrwd a bydd y gwersi a'r dysgu yn cael eu cynllunio i ddiwallu anghenion y dysgwyr. Byddant yn cael cymorth a chefnogaeth ychwanegol ac yn cael eu haddysgu mewn grwpiau llai.
Mae'n dda iawn y bydd ganddyn nhw'r cyfle i ddysgu Cymraeg.  Mae'n dda y bydd hyn yn Gymraeg oherwydd mae fy ffrind i lawr y stryd yn mynd i un Saesneg.	Nodwyd.

### Ysgol Gymraeg Cwmbran

Cymerodd 155 o ddisgyblion ran yn yr holiadur a chyflwyno ymatebion. Dyma nhw:

C1) Wyneb Hapus = 109, Wyneb Niwtral = 39, Wyneb Anhapus = 7

C2) Wyneb Hapus = 83, Wyneb Niwtral = 48, Wyneb Anhapus = 24

Cwestiynau / Sylwadau gan ddisgyblion	Ymateb yr ALI
Ble mae amser chwarae?	Bydd hyn yn fater i'r ysgol ei drefnu. Byddan nhw'n creu gardd ar wahân i'r plant chwarae ynddi.
Beth yw'r oedran?	Bydd yn dechrau gydag oedran ysgol gynradd.
Pa waith allwn ni ei wneud yng Ngwynllyw?	Bydd hyn yn fater i'r ysgol ei drefnu a bydd yr athrawon yn sicrhau bod y plant yn cael yr holl gymorth sydd ei angen arnynt.
Beth fydda i'n ei fwyta?	Bydd y cinio yr un fath â'r hyn y mae gweddill disgyblion yr ysgol yn ei fwyta.

Pa iaith ydych chi'n mynd i'w dysgu iddyn nhw yn ysgol Gwynllyw?	Bydd disgyblion yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
Beth ydym ni'n ei wneud ynglŷn â nifer y cyrff? Faint o ystafelloedd fydd yn y Ganolfan Adnoddau Dysgu? Ydy'r lle'n fawr?	Bydd lle i 10 disgybl. Bydd un prif ystafell ddosbarth a 2 ystafell lai.
Maen nhw'n siarad Saesneg, Sbaeneg, Ffrangeg am ychydig ddyddiau yno ac rydyn ni'n "cot"?	Bydd disgyblion yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
Beth fydd yn wahanol am hyn i Gwynllyw?	Bydd hyn ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.
Ydych chi'n mynd i agor un yng Nghwbrân gan fod angen i blentyn fod yn agos at y teulu?  Beth am adeilad yng nghanol y fwrdeistref?  Pam na fyddwch chi'n rhoi'r adeilad yng nghanol Cymru.	Y rheswm pam y dewiswyd Ysgol Gyfun Gwynllyw yw oherwydd bod yr holl ysgolion cynradd Cyfrwng Cymraeg yn bwydo i Ysgol Gyfun Gwynllyw, sy'n 'ddarpariaeth pob oed.'  Mae'n cael ei chreu fel darpariaeth gynradd yn y lle cyntaf, ond mae ganddo'r lle sydd ei angen i ehangu hyn ar gyfer darpariaeth CAD pob oed.
Oes angen i rieni yrru eu plant yno neu a yw'r bysiau'n gwneud hynny? Yn fy marn i, dylai ysgol fod yn agosach at Gwbrân.	Gall teuluoedd disgyblion ag ADY mewn lleoliadau arbenigol wneud cais iddynt gael eu hystyried am gymorth gyda chlodiant. Gall disgyblion fod yn gymwys i gael cludiant am ddim o dan bolisi Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol y Cyngor. Gall teuluoedd hefyd fynd â'u plant yno eu hunain.
Sut maen nhw'n mynd ati i wneud cais? A all fod ar gyfer ADHD?	Byddai angen anfon ceisiadau am le at Banel Anghenion Dysgu Ychwanegol Awdurdod Lleol Torfaen i ystyried a ellir diwallu anghenion y plentyn yn y lleoliad.
A fydd yr adeilad y tu mewn i Gwynllyw?	Bydd, yn y lleoliad Cynradd, adeilad Gwladys.
Allwch chi wneud un ar gyfer pobl iau fel 11-3?	Mae hyn ar gyfer plant oed cynradd i ddechrau. Byddai gan blant oed uwchradd ystafell wahanol wrth iddynt gyrraedd yr oedran hwnnw.
Ydyn nhw'n gallu bod gyda ffrindiau?	Bydd plant sy'n mynychu'r Ganolfan yn gallu gwneud ffrindiau gyda disgyblion eraill yn y Ganolfan a'r ysgol ehangach.
Sut mae pawb yn mynd i ddysgu pethau?  Pryd mae Gwynllyw yn dechrau?	Bydd disgyblion yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a byddant yn cael cwricwlwm amrywiol. Bydd y diwrnod ysgol yr un amseroedd â'r ysgol

	brif ffrwd a bydd y gwersi a'r dysgu yn cael eu cynllunio i ddiwallu anghenion y dysgwyr. Byddant yn cael cymorth a chefnogaeth ychwanegol ac yn cael eu haddysgu mewn grwpiau llai.
--	--

Gofynnwyd rhai o'r cwestiynau uchod gan nifer o ddisgyblion. Roedd y cwestiynau / sylwadau a ofynnwyd amlaf yn ymwneud â'r lleoliad, e.e. "pam yno a ddim yng Nghwmbrân neu rywle arall" (19 sylw / ymholiad) a sut i gyrraedd yno (20 sylw / ymholiad).

Roedd 17 sylw nad oedd angen ymateb iddynt fel "Rwy'n credu bod popeth yn iawn yn Ysgol Gwynllyw".

Roedd yna ychydig o ymatebion na ellid eu dehongli fel sylwadau na chwestiynau.

### Ysgol Gymraeg Gwynllyw

Cymerodd 64 o ddisgyblion ran yn yr holiadur a chyflwyno ymatebion. Yn dibynnu ar y grŵp oedran, roeddent yn gymysgedd o ymatebion wyneb hapus a sylwadau / cwestiynau. Dyma nhw:

C1) Wyneb Hapus = 14, Wyneb Niwtral = 2, Wyneb Anhapus = 2

C2) Wyneb Hapus = 16, Wyneb Niwtral = 2, Wyneb Anhapus = 0.

Cwestiynau / Sylwadau gan ddisgyblion	Ymateb yr ALI
[A] fydd y bobl sy'n mynd i'r lleoedd hyn yn gallu gweld eu ffrindiau nad ydyn nhw yn y Ganolfan?	Bydd disgyblion yn y Ganolfan yn gallu gwneud ffrindiau newydd.
Beth yw enw'r Ganolfan hon a beth am y logo? Ydyn nhw wedi meddwl am enw ar gyfer y Ganolfan?	Cyfrifoldeb Corff Llywodraethu Ysgol Gymraeg Gwynllyw fydd y wisg ysgol, y bathodyn a'r logo gan ystyried llais y disgybl.
Pam mae'r ysgol mor bell o'r Fenni bron i ddeg ac ati?	Mae'r Ganolfan arfaethedig yn Nhorfaen oherwydd mai Awdurdod Lleol Torfaen sy'n ei sefydlu.
Os bydd CAD yn dod i Gwynllyw a fydd lle i blant nad oes angen cymorth arnynt.	Bydd digon o le/lleoedd ar ôl i ddisgyblion eraill unwaith y bydd y Ganolfan Adnoddau Dysgu wedi'i chreu, h.y. y rhai nad oes angen iddynt fynd i'r Ganolfan.

Oes lle i bob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg?	Bydd y lle hwn ar gael i ddisgyblion ym mhob ysgol cyfrwng Cymraeg yn Nhorfaen nid dim ond Ysgol Gymraeg Gwynllyw.
Sut olwg fydd ar ddiwrnod ysgol iddyn nhw?	Bydd y diwrnod ysgol yr un amseroedd â'r ysgol brif ffrwd a bydd y gwersi a'r dysgu yn cael eu cynllunio i ddiwallu anghenion y dysgwyr. Byddant yn cael cymorth a chefnogaeth ychwanegol ac yn cael eu haddysgu mewn grwpiau llai.
Sut mae'r plant yn mynd i gyrraedd yr ysgol?  A fydd digon o fysiau neu gludiant i'r plant hyn?  A fyddent yn gyfforddus yn teithio gyda'r plant eraill?	Gall teuluoedd disgyblion ag ADY mewn lleoliadau arbenigol wneud cais iddynt gael eu hystyried am gymorth gyda chludiant. Gall disgyblion fod yn gymwys i gael cludiant am ddim o dan bolisi Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol y Cyngor. Gall teuluoedd hefyd fynd â'u plant yno eu hunain.  Bydd digon o gludiant yn cael ei ddarparu ar gyfer yr holl blant cymwys.  Mae hebryngwyr ar bob cludiant ysgol i ddisgyblion sy'n mynd i Ganolfannau Adnoddau Dysgu. Bydd yr adran Drafnidiaeth a'r contractwr a neilltuwyd yn cysylltu â theuluoedd i drafod anghenion penodol a rhoi trefniadau ar waith, os dyfernir y cludiant.
A all hyn fod ynglŷn ag ysgolion lleol Cymru fel trip i blant sydd angen help?	Mae'r Ganolfan i ddisgyblion fynychu'n llawn amser ac nid am gefnogaeth tymor byr / dros dro.
Faint o bobl o Gwibrân sydd wedi mynd i Gwynllyw.	Byddai angen eglurhad pellach arnom o'r cwestiwn cyn y gallem ateb hyn.
Does dim lle i bawb oherwydd bod mwy o bobl yno.  Oes digon o le?	Bydd lle i hyd at 10 lle.  Oes. Bydd lle hefyd i adolygu hyn ac ehangu yn y blynyddoedd i ddod os bydd angen.
Beth yw enw'r Ganolfan? Logo.  A ellir ei galw'n 'Dafydd Iwan'?	Cyfrifoldeb Corff Llywodraethu Ysgol Gymraeg Gwynllyw fydd y wisg ysgol, y bathodyn a'r logo gan ystyried llais y disgybl.

Sut olwg fydd ar y diwrnod ysgol, beth fydd yn digwydd os nad yw plentyn yn hapus gyda rhywbeth.	Bydd y diwrnod ysgol yr un amseroedd â'r ysgol brif ffrwd a bydd y gwersi a'r dysgu'n cael eu cynllunio i ddiwallu anghenion y dysgwyr. Byddant yn cael cymorth a chefnogaeth ychwanegol ac yn cael eu haddysgu mewn grwpiau llai.
Sut fydd y plant yn ei drin? Ydyn nhw'n mynd i newid y wisg ysgol?	Y syniadau cychwynnol yw y bydd y wisg yr un fath â'r brif ysgol (Ysgol Gymraeg Gwynllyw). Efallai y bydd cyfle i addasu bathodyn yr ysgol ar gyfer y Ganolfan.  Cyfrifoldeb Corff Llywodraethu Ysgol Gymraeg Gwynllyw fydd y wisg, y bathodyn a'r logo gan ystyried llais y disgybl.
Oes cynllun newydd ar gyfer lleoedd fel y Fenni?	Ni all Awdurdod Lleol Torfaen wneud cynlluniau ar gyfer y Fenni gan fod hyn yn Sir Fynwy.
Ydych chi'n meddwl y bydd y Ganolfan yn gweithio?	Mae creu Canolfannau Adnoddau Dysgu ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn arwain at brofiad dysgu cadarnhaol i ddisgyblion.
Beth fydd plentyn o ysgol y Fenni neu Ysgol Bro Helyg yn ei wneud?  Sut fyddai'n effeithio ar blant ym mhobman?	Byddai angen anfon ceisiadau am le at Banel Anghenion Dysgu Ychwanegol Awdurdod Lleol Torfaen i ystyried a ellir diwallu anghenion y plentyn yn y lleoliad ac a oes lle. <u>Rhoddir blaenoriaeth i ddisgyblion o Dorfaen.</u>
Oes lle i bawb sy'n dod o flwyddyn chwech?	Byddai angen anfon ceisiadau am le at Banel Anghenion Dysgu Ychwanegol Awdurdod Lleol Torfaen i ystyried a ellir diwallu anghenion y plentyn yn y lleoliad ac a oes lle.
A fydd athrawon penodol ar gyfer y ganolfan?	Bydd angen i'r lleoliad gyflogi athrawon sydd â'r cymwysterau a'r profiad cywir i weithio yn y ganolfan.
Beth yw'r cynllun ar gyfer yr adeilad?	Y cynllun cychwynnol yw defnyddio un prif ystafell ddosbarth a 2 ystafell ddosbarth lai ym mloc y cyfnod Cynradd, adeilad Gwladys. Bydd hyn yn cael ei adolygu'n barhaus.

Oes trafnidiaeth, ysgolion yn Sir Fynwy?	Cyfrifoldeb Cyngor Sir Fynwy yw cludiant i ddisgyblion o Sir Fynwy.
Cynllun da, bydd cyfle i chweched dosbarth Gwynllyw helpu o fewn y Ganolfan (gwirfoddoli).	Sylw wedi'i nodi.
Mae gennym ni ddigon o offer i ddarparu'r gefnogaeth angenrheidiol.	Bydd yr ysgol yn gyfrifol am ddarparu'r holl offer angenrheidiol.

Roedd rhai sylwadau nad oedd angen ymateb iddynt. Dyma nhw:

- I gael popeth i'r uned serch hynny
- Nid un uned yn unig, gall minibws eu casglu
- Efallai y gall y rhieni eistedd i mewn ar un wers i weld a all eu plentyn ymdopi â'r gwersi, gallwn gael grŵp blwyddyn penodol i fynd hefyd i helpu a chael dealltwriaeth, a newid y grŵp blwyddyn yn wythnosol
- Gemau, Teledu, Ffrindiau, Rhywle i fod yn greadigol
- Mwy o help i ganolbwyntio, Help i ddarllen, mwy o lyfrau
- Llyfrau
- Athrawon, lle i fod yn greadigol
- Lle diogel
- Blociau, Digon o chwarae
- Gemau, Teledu, Peintio
- Llyfrau
- Athrawon, Blodau, Garddio
- Planhigion, Ffrindiau ac Athrawon, Riced, Sialc ac amser creadigol
- Dŵr, Teledu, Bin, Sialc, Gemau, Gwobrau, Sticeri
- Sialc a bod yn greadigol, Planhigion, Cerddoriaeth, Pobl (llawer o ffrindiau ac athrawon)
- Cadeiriau, Byrddau, Awyr iach
- Gemau a sgrin, Ffrindiau
- Gemau, Teledu, Tarian, Gwobrau
- Amser chwarae gyda ffrindiau y tu allan
- Dynion fel athrawon

## **Atodiad 1 - Rhestr ddogfen ar gyfer y ddogfen ymgynghori**

- Corff Llywodraethu (trwy Gadeirydd y Llywodraethwyr) pob ysgol a gynhelir gan ALI Torfaen
- Pennaeth pob ysgol yn Nhorfaen
- Cyfarwyddwr Addysg Archesgobaethol yr Eglwys Gatholig Rufeinig
- Cyfarwyddwr Addysg Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru
- Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru
- CBAC Cyf.
- Comisiynydd y Gymraeg
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Swyddogion Llywodraeth Cymru a Gweinidog Cymru
- ESTYN
- Prif Swyddogion Addysg Gwent Gyfan (Caerffili, Casnewydd, Sir Fynwy, Blaenau Gwent, i'w dosbarthu i ysgolion yn eu hardaloedd yn ôl yr angen)
- Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc
- Coleg Gwent
- Y Gwasanaeth Gyrfaoedd
- Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgol Torfaen
- Llyfrgelloedd; (Blaenafon, Cwmbrân a Phont-y-pŵl)
- Cyfarwyddiaethau Eraill Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen - Trafnidiaeth
- Gwasanaeth Llyfrgell Ysgolion
- Cynghorau Cymuned Blaenafon, Cwmbrân, Pont-y-pŵl, Ponthir, Henllys, Croesyceiliog a Llanyrafon
- Pob Cymdeithas Broffesiynol berthnasol (NEU; NASUWT; UCAC; UNSAIN; GMB; NAHT; ASCL)
- Aelod o'r Senedd Lleol – Lynne Neagle
- Aelod Seneddol Lleol – Nick Thomas-Symonds
- Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Seneddol eraill sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan/y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu gan unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion
- Pob Aelod Etholedig o Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Rhieni/Gofalwyr yr holl ddisgyblion yr effeithir arnynt gan y cynigion
- RhAG (Rhieni dros Addysg Cyfrwng Gymraeg)
- Lleoliadau/Darparwyr Blynyddoedd Cynnar Preifat/Gwirfoddol Cofrestredig yn Nhorfaen
- Cynghrair Gwirfoddol Torfaen
- Bwrdd Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf
- CYDAG (Cymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg)
- Mudiad Ysgolion Meithrin
- Gwasanaeth Cyflawni Addysg
- Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gyfer yr ardal
- Yr Awdurdod Iechyd perthnasol (Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan)
- Swyddog Arweiniol Clinigol Addysgol Dynodedig, GIG Cymru
- SNAP Cymru
- Fforwm Mynediad Torfaen
- Cyfarwyddwyr Addysg Consortiwm De-ddwyrain Cymru (SEWC)



## Atodiad 2 – Llythyr ymgynghori

**GWASANAETH ADDYSG**  
**Cyfarwyddwr Addysg**  
**Dr Andrew Powles**



Eich cyf:	Cysylltwch â:	Kath Worwood
Ein cyf:	Llinell ffôn uniongyrchol:	01495 766989
Dyddiad: 26 Ionawr 2026	E-bost:	kath.worwood@torfaen.gov.uk

At: Pob Ymgynghorai Statudol a Phartïon â Chanddynt Fuddiant

Annwyl Syr/Madam

### Cynnig i sefydlu darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg newydd

Mae'r Cyngor yn cynnig creu Canolfan Adnoddau Dysgu cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Gymraeg Gwynllyw (Medi 2026).

Yn unol â Chod Ad-drefnu Ysgolion Llywodraeth Cymru, mae'n ofynnol i'r Cyngor gynnal ymgynghoriad statudol fel rhan o'r broses a chyn gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid gweithredu'r cynnig ai peidio.

Felly, fe'ch gwahoddir i gyflwyno eich barn ar y cynnig uchod. Dyma hefyd eich cyfle i awgrymu dewisiadau amgen i'r cynnig hwn.

Gwnewch hynny yn ysgrifenedig drwy:

- cwblhau'r ffurflen sydd ynghlwm a'i dychwelyd at Andrew Powles, Cyfarwyddwr Addysg yn y cyfeiriad canlynol: I SYLW Kath Worwood, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Canolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl, Torfaen NP4 6YB; neu
- e-bostiwrch drwy [kath.worwood@torfaen.gov.uk](mailto:kath.worwood@torfaen.gov.uk)

Rhaid derbyn pob ymateb erbyn 12 Mawrth 2026 fan bellaf.

Yn gywir

Kathryn Worwood  
Prif Swyddog Blaengynllunio  
Gwasanaeth Addysg

---

MAE'R DDOGFEN HON AR GAEL MEWN PRINT MWY A BRAILLE AR GAIS  
Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg.  
Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth yn Gymraeg ac ni fydd yn arwain at oedi.

Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl, Torfaen, NP4 6YB Ffôn 01495 762200

[www.torfaen.gov.uk](http://www.torfaen.gov.uk)

I gael gwybodaeth am sut rydym yn trin eich data personol, gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd ar [Torfaen.gov.uk](http://Torfaen.gov.uk)

**TORFAEN  
COUNTY  
BOROUGH**



**BWRDEISTREF  
SIROL  
TORFAEN**